**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN FESTRI CAPEL SALEM LLANDDOGED, LLANDDOGED, NOS LUN, 28ain HYDREF, 2024**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin(HM (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris(AM), Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Cyng. John Owen(JO), Cyng. Eifion Williams(EW), Delyth Algieri (clerc).
Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AW)

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO),

2. **CADARNHAU'R COFNODION 29ain MEDI 2024**

Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan (ALJ) ac eilwyd gan ( JO).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 PLAC CAWR CADAIR IFAN GOCH

Y clerc wedi cysylltu unwaith eto gydag Ymddiriedolaeth Genedlaethol i holi am y plac. Ymddiriedolaeth am greu plac newydd a stand a gofyn buasai'r Cyngor Cymuned yn talu am ei osod.
Aelodau'r cyngor yn fodlon i ariannu'r gosod y plac.

3.2 **MYNEDFA I FAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH MAENAN**

Y clerc wedi cysylltu gyda Mr Emyr Jones, Adran Priffyrdd ynglŷn â llenwi'r twll wrth fynedfa'r Maes parcio Cadair Ifan Goch ac maent yn fodlon llenwi y twll i'r cyngor cymuned.

3.3 **COEDEN NADOLIG**

Bydd ffair Nadolig Ysgol Llanddoged ar y 3ydd o Ragfyr eleni, bydd aelodau'r Cyngor yn gwneud trefniadau i gael y Goeden Nadolig i fynnu ar gyfer y noson yma

3.**4 CYLCH MEITHRIN LLANDDOGED**

Derbyniwyd llythyr gan Alwen Sailsbury(Cadeirydd Pwyllgor Meithrin a Ti a Fi Llanddoged) yn diolch am y rhodd ariannol o £200 gan y Cyngor cymuned tuag at gostau prynu ffon symudol i'r Cylch Meithrin.

3.5 **FFEDERALEIDDIO YSGOL LLANDDOGED AC YSGOL YSBYTY IFAN**

Gareth Jones Pennaeth Ysgol Llanddoged wedi anfon gwybodaeth ynglŷn â (Dogfen Ymgynghoriad – Cynnig i Sefydlu Ffederasiwn rhwng Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan.). Bydd cyflwyniad gan y Pennaeth am y Ffederaleiddio yn yr ysgol ar y 18fed o Dachwedd i godi ymwybyddiaeth i bawb o'r ddogfen ymgynghoriad.

4. **TALIAD GRANT – UKSPF CONWY**

Cadarnhaodd y clerc fod y taliad olaf o'r grant UKSPF o £1,291.00 wedi cael ei dderbyn gan Cyngor Conwy.

5. **CYNNAL A CHADW**

5.1 Angen sweeper i lanhau'r dail ar Ffordd Llanddoged ac Allt yr Abbey Maenan.

6.**UNRHYW FATER ARALL**

6.1 **SEDD WAG – WARD MAENAN**

Nododd y clerc ei bod wedi derbyn neges gan Cyng.Dylan Jones sydd yn ymddiswyddo o swydd Cynghorydd ar Ward Maenan. Diolchwyd i Cyng.. Dylan Jones am ei wasanaeth.
Y clerc wedi cysylltu gyda'r Adran Etholiadau yng Nghonwy i hysbysu o'r sedd wag.

6.2 **GWAITH ATGYWEIRIO 'R EGLWYS LLANDDOGED**

Derbyniwyd e-bost gan Ned Scharer o'r ' The Natural Building Centre' yn gofyn caniatâd i ddefnyddio rhan o'r maes parcio Cegin Wen Llanddoged ar gyfer ei gerbydau yn ystod ei gwaith o atgyweirio'r Eglwys yn Llanddoged i CADW. Rhoddwyd caniatâd iddynt ar yr amod eu bod yn blaenoriaethu lle i'r athrawon yr ysgol barcio yno.

6.3 **ARGLAWDD TAN LAN, LLANDDOGED**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi bod yn gweithio i gasglu tystiolaeth yn gysylltiedig ag Arglawdd Tan Lan i asesu hyfywedd cynnal a chadw'r arglawdd yn y dyfodol er mwyn rheoli perygl llifogydd. Maent bellach wedi cwblhau'r gwaith o gasglu tystiolaeth ac yn argymell yr opsiwn na ddylai Rheoli Perygl Llifogydd CNC wneud unrhyw waith ar Arglawdd Tan Lan na'r gollyngiadau drwy'r arglawdd yn y dyfodol.